Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Nicola Stubbins
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
LL15 1YN

Dyddiad: 9 Chwefror 2022

Annwyl Gyfarwyddwr,

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Arolygiad dilynol

Ymgymerwyd ag archwiliad sicrwydd yn awdurdod lleol Sir Ddinbych rhwng 28 Mehefin a 02 Gorffennaf 2021. Nodwyd meysydd ymarfer cadarnhaol ar draws gwasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant, ynghyd â meysydd sydd angen eu gwella o fewn gwasanaethau plant. Ymatebodd yr awdurdod lleol yn gyflym a chyflwynodd gynllun gweithredu i AGC a oedd yn cynnwys camau ac archwiliadau penodol i asesu safon y broses o wneud penderfyniadau a goruchwyliaeth gan reolwyr ym maes gwasanaethau plant.

Nod yr arolygiad hwn oedd asesu cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r meysydd hynny a nodwyd fel rhai sydd angen eu gwella. Roedd ein ffocws ar ddiogelwch a llesiant plant a theuluoedd. Roedd hyn yn cynnwys arferion yr awdurdod lleol o adolygu, dadansoddi a phenderfynu mewn perthynas â risg. Yn ogystal, a oedd yr awdurdod lleol yn bodloni ei ofynion statudol yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Llwybrau ymholi
Ystyriwyd y cwestiynau canlynol yn unol ag egwyddorion Deddf 2014:

1. **Pobl - llais a rheolaeth** – Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn gweithio i gefnogi plant a theuluoedd er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed?

2. **Atal** – I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddiannus wrth hyrwyddo gwaith atal ac wrth leihau'r angen am gymorth mwy neu ffurfiol gan asiantaethau statudol, gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 790 0126
AGC@llyw.cymru

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gynnwys cymryd yr holl gamau angenrheidiol i gefnogi magu'r plentyn gan deulu'r plentyn, ac osgoi patrwm o ailatgyfeirio?

3. **Llesiant** – Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn bodloni ei ddyletswydd statudol wrth hyrwyddo llesiant plant, gan sicrhau diogelwch plant rhag niwed, esgeulustod a chamdriniaeth ragweledig a chefnogi teuluoedd i gyflawni canlyniadau sy'n bwysig iddynt?

4. **Partneriaethau** – I ba raddau y gall awdurdodau lleol roi sicrwydd i'w hunain y manteisir yn gadarnhaol ar gyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i fwyafu cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sicrhau y darperir gwasanaethau integredig a llywio cynaliadwyedd gwasanaethau?

Pobl - llais a rheolaeth – Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn gweithio i gefnogi plant a theuluoedd er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed?

Roedd ffeiliau a adolygwyd yn rhoi tystiolaeth o arferion amrywiol o ran pa mor dda mae lleisiau plant yn cael eu clywed. Roedd enghreifftiau o weld a siarad â phlant, a siarad â nhw ar eu pen eu hunain pan oedd hynny'n briodol. Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau pan na siaradwyd â rhieni a phlant pan ddylai hyn fod wedi digwydd. Mae hyn yn golygu nad oedd gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth drwy'r amser o brofiad byw'r plant. Mewn rhai enghreifftiau, cafodd ffeiliau eu cau'n sydyn heb ganfod barn y bobl.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod llais y plant unigol a'u teuluoedd yn cael ei geisio yn gyson, a'i flaenoriaethu yn asesiadau o anghenion gofal a chymorth y plant, ynghyd ag yn y gwaith o lunio cynlluniau gofal a chymorth, a chynlluniau amddiffyn gofal a chymorth.

Mae cadw a recriwtio staff gofal cymdeithasol yn faes o bryder yn genedlaethol. Mae'n faes o bryder arbennig yn y timau derbyn ac ymyrryd ym maes gwasanaethau plant yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'r sefyllfa bresennol yn rhoi pwysau sylweddol ar y staff, y gwnaethom eu gweld i fod yn ymroddedig, gan anelu at sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r plant a'u teuluoedd. Mae'r staff yn gweithio'n arbennig o galed i geisio ateb y galw, ac maent yn aml yn gweithio oriau hir. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gweithlu digonol sydd â'r cymwysterau priodol.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y ddyletswydd hon ac wedi ymateb yn strategol trwy gydnabod bod diffyg capasiti yn y gweithlu gofal cymdeithasol yn risg ac mae wedi pwysleisio hyn yn ei Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Yn gadarnhaol, mae grŵp prosiect ar waith i adolygu'r gwaith o recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol ar draws yr holl wasanaethau cymdeithasol. Y nod yw adnabod sut y gall yr awdurdod lleol ddod yn fwy cystadleuol yn y farchnad recriwtio. Gwnaethom glywed gan y cyfarwyddwr am gamau a gymerir yn y cyfamser i gefnogi recriwtio amserol. Mae hyn yn cynnwys penodi aelod o staff Adnoddau Dynol i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar recriwtio staff i faes gofal cymdeithasol. Datblygiad cadarnhaol pellach yw penodiad parhaus Pennaeth Gwasanaeth Plant profiadol a chymwys sydd â'r cymwysterau priodol. Dywedodd y staff yn y timau sydd â'r nifer fwyaf o staff sy'n absennol a swyddi gwag sut oedd cymorth gwasanaeth cyfan i'w cynorthwyo yn

eu hymarfer, gyda staff a rheolwyr o dimau eraill yn ymateb yn gyflym i geisiadau am gymorth.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y cymorth gan y rheolwyr a'u cymheiriaid, gan nodi bod canolbwynt cyson ar lesiant staff. Cafodd hyn ei gadarnhau yn y cofnodion goruchwylio a welwyd, gyda chymorth emosiynol priodol yn cael ei ddarparu gan y rheolwyr. Mae ‘Care First’ (Rhaglen Cymorth i Weithwyr) hefyd ar gael i staff yn yr awdurdod lleol fel adnodd cymorth emosiynol ychwanegol.

Disgrifiodd y staff sut mae gweithrediad sesiynau gwella arferion yn unol â chynllun gweithredu'r awdurdod lleol yn fuddiol. Mae cyfleoedd o'r fath yn nodi arferion cadarnhaol ond hefyd meysydd lle y gellid fod wedi gwneud yr ymarfer yn wahanol, ac yn fwy effeithiol. Er gwaethaf bod llwythi achosion yn uchel iawn mewn rhai timau, cefnogwyd staff i fynychu hyfforddiant perthnasol, y dywedasant oedd yn gadarnhaol i'w dysgu a'u datblygiad.

Mae gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant rôl weithredol yn y gwaith o fonitro cynnydd y cynllun gweithredu, ynghyd â goruchwyliaeth gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Bu i’r ddau gydnabod bod cynnydd wedi cael ei atal gan y problemau sylweddol o ran capasiti'r gweithlu, gan gynnwys yr angen i reolwyr fod yn fwy gweithredol i gefnogi plant a theuluoedd, yn lle canolbwyntio ar faterion datblygiad strategol.

Canfuom y byddai rhai ffeiliau wedi elwa gan fwy o oruchwyliaeth gan reolwyr er mwyn cefnogi ymarferwyr sydd heb eu cofrestru. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ei hun fod yr holl ymarferwyr sy'n ymgymryd ag asesiadau â'r sgiliau, hyfforddiant a chymwysterau priodol mewn ymgymryd ag asesiadau.

Mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno dull sicrhau ansawdd i nodi meysydd i'w gwella ac adeiladu ar arferion cadarnhaol. Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i adnabod meysydd i'w gwella, ac yn yr un modd i adeiladu ar arferion cadarnhaol. Ers yr archwiliad sicrwydd rhwng 28 Mehefin a 2 Gorffennaf 2021, mae archwiliadau ffeiliau wedi'u cwblhau sydd wedi cynorthwyo'r gwasanaeth i nodi bylchau, i flaenoriaethau risgiau, ac i adnabod lle mae angen monitro pellach. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo, gydag adroddiadau archwilio at ddibenion casglu, dadansoddi ac adrodd wedi'u trefnu ar gyfer dechrau mis Ionawr 2022.

Atal – I ba raddau y mae’r awdurdod lleol yn llwyddiannus wrth hyrwyddo gwaith atal ac wrth leihau'r angen am gymorth mwy neu ffurfiol gan asiantaethau statudol, gan gynnwys cymryd yr holl gamau angenrheidiol i gefnogi magu’r plentyn gan deulu'r plentyn, ac osgoi patrwm o ailatgyfeirio?

Gwnaethom glywed gan y prif reolwr sy'n gyfrifol am y gwasanaeth atal ac ymyrryd yn gynnar am uchelgeisiau clir i adnabod cymorth ychwanegol i blant a theuluoedd ar y cyfle cyntaf. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a chyfeirio at wasanaethau cyffredinol neu wasanaethau wedi'u targedu, ynghyd ag ystyried adnoddau pobl eu hunain a'r rhai sydd ar gael gan deuluoedd a chymunedau. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen mwy o adnoddau er mwyn gallu nodi cymorth ychwanegol i blant a theuluoedd ar y cyfle cyntaf ac mae wedi defnyddio cyllid grant i ehangu capasiti wrth y

drws ffrynt. Y bwriad yw y bydd hyn yn cryfhau gallu'r awdurdod lleol i fodloni ei gyfrifoldeb statudol i ddarparu ystod o wasanaethau ataliol. Dyma faes y byddwn yn ymweld ag ef eto i asesu effaith y datblygiad hwn ar y canlyniadau i blant a theuluoedd.

Canfuom fod yr arferion ataliol y gwnaethom eu hadolygu yn amrywio o ran ansawdd. Roedd yr enghreifftiau gorau yn galluogi teuluoedd i gael eu cefnogi'n llawn yn y cartref. Er enghraifft, gwnaeth y cymorth gan y tîm therapiwtig osgoi'r angen i blentyn dderbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau lle y byddai plant a theuluoedd wedi elwa o ymarferwyr yn meddwl yn feirniadol yn fwy cyson am y potensial i niwed gael ei ailadrodd, cynlluniau wrth gefn ac argaeledd cymorth ehangach. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau nad yw cyfleoedd i gefnogi plant a theuluoedd yn cael eu colli neu eu hoedi.

Partneriaethau – I ba raddau y gall awdurdodau lleol roi sicrwydd i'w hunain y manteisir yn gadarnhaol ar gyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i fwyafu cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sicrhau y darperir gwasanaethau integredig a llywio cynaliadwyedd gwasanaethau?

Gwnaeth y rhieni a siaradwyd â nhw gyfeirio'n gadarnhaol at eu perthynas ag ymarferwyr ac mewn perthynas â'r cymorth a ddarperir. Fodd bynnag, canfuom fod rhai rhieni'n aneglur ynglŷn â'r rheswm dros ymyrraeth yr awdurdod lleol. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y rhieni'n glir yn gyson am yr hyn a ddisgwylir ganddynt i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Hefyd, roedd diffyg tystiolaeth gyson i ddangos bod cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau amddiffyn gofal a chymorth wedi'u rhannu â phlant, teuluoedd a phartneriaid mewn modd amserol. Byddai gwneud hyn yn rhoi eglurder pellach am y rheswm dros yr ymyrraeth, nodau, canlyniadau a chyfrifoldebau.

Mae'n rhaid i'r cynllun gofal a chymorth/y cynllun amddiffyn gael ei gyd-gynhyrchu â phlant a theuluoedd i sicrhau bod dealltwriaeth y cytunwyd arni am sut y bydd yr anghenion yn cael eu diwallu a sut y bydd canlyniadau personol yn cael eu cyflawni. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod copïau perthnasol yn cael eu rhannu'n gyson â phobl ifanc a theuluoedd ynghyd â gweithwyr proffesiynol eraill.

Ar lefel weithredol, mae cyfathrebu da rhwng gwasanaethau plant a phartneriaid allanol. O ran ansawdd, mae'r wybodaeth atgyfeirio a ddarperir gan bartneriaid yn eglur ac yn cynnwys y manylion perthnasol, sy'n cynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau cynnar.

Dywedodd yr heddlu a chynrychiolwyr iechyd wrthym am y berthynas gadarnhaol sydd ganddynt â'r awdurdod lleol o ran rhannu gwybodaeth a chydweithio. Gwnaeth cynrychiolwyr iechyd gyfeirio at yr effaith gadarnhaol y mae cyfarfodydd cyn geni a sefydlwyd yn ddiweddar yn ei gael ar blant a theuluoedd, gan roi cyfle clir i rannu gwybodaeth a chynllunio ymyrraeth a chymorth amserol. Yn yr un modd, cyfeiriodd cynrychiolydd addysg at sut mae paneli amlasiantaethol mewn ysgolion yn gwasanaethu fel fforwm defnyddiol ar gyfer rhannu gwybodaeth i sicrhau bod yr holl asiantaethau partner yn cael gwybod am anghenion plant a sut y gallent gael eu cefnogi.

Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i weithio'n strategol â phartneriaid i gefnogi plant a theuluoedd yn ei ardal. Clywsom gan reolwyr ac ymarferwyr am sut mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol gan ddefnyddio'r grant trawsnewid i ddatblygu gwasanaethau newydd i ddarparu cymorth amserol a phriodol i blant a theuluoedd. Er enghraifft, y Tîm Teulu Integredig Lleol a sefydlwyd ym mis Ionawr eleni gyda'r awdurdod lleol yn gweithio'n strategol ag awdurdod lleol cyfagos ynghyd ag ymddiriedolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gefnogi rhieni. Mae plant a theuluoedd yn elwa o fewnbwn staff o aml ddisgyblaethau, ac mae'r dull a'r cymorth yn cael eu teilwra i ddiwallu anghenion y plant unigol a'u teuluoedd.

Llesiant – Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn bodloni ei ddyletswydd statudol wrth hyrwyddo llesiant plant, gan sicrhau diogelwch plant rhag niwed, esgeulustod a chamdriniaeth ragweledig a chefnogi teuluoedd i gyflawni canlyniadau sy'n bwysig iddynt? Gan gynnwys darparu gofal llai dwys yn amserol ar gyfer plant y tu allan i wasanaethau gofal yr awdurdod lleol.

Gwnaethom arsylwi ar arferion amrywiol o ran sut oedd yr awdurdod lleol yn ymateb i ddiogelwch a llesiant plant. Gwelsom enghreifftiau o blant yn derbyn ymateb cyflym mewn perthynas â diogelu, a phenderfyniadau priodol yn cael eu gwneud i uwchgyfeirio ymchwiliadau amddiffyn plant. Roedd hyn yn cynnwys dealltwriaeth o risg a gwneud penderfyniadau wrth y drws ffrynt gydag atgyfeirio cyflym i'r tîm derbyn gyda thystiolaeth o ddadansoddiad pellach o risg a phenderfyniadau cyson ar y pryd hynny. Cynhelir trafodaethau a chyfarfodydd strategaethau â'r heddlu drwy'r amser. Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn ystyried cynnwys ymarferwyr eraill, yn enwedig pan fyddant yn ymwneud â'r plentyn neu'r gweithiwr proffesiynol sy'n gwneud yr adroddiad. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.

Gwelsom hefyd rai ffeiliau ble collwyd cyfleoedd i fod yn sicr am ddiogelwch plant, ac, mewn eraill, roedd diffyg cofnodion ynglŷn â sut y cyfarchwyd y risgiau. Roedd arferion diogelu yn dilyn y cam ymyrru cychwynnol yn aml yn dameidiog gydag elfennau diogelwch pwysig ar goll.

Er mwyn cydymffurfio â chod ymarfer gofal cymdeithasol a'r gofynion cyfreithiol, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wella'r gwaith o gofnodi mewn ffeiliau i roi tystiolaeth eu bod yn rheoli risgiau mewn perthynas â diogelwch plant. Heb hyn, ni all yr awdurdod lleol fod yn ffyddiog bod y risgiau hyn yn cael sylw mewn modd effeithiol.

Cydnabyddir bod yr awdurdod lleol wedi blaenoriaethu ymyrraeth ar unwaith wrth ddiogelu plant yn sgil yr heriau sy'n ymwneud â diffyg staff, ond mae hwn wedi cael effaith andwyol ar ymgysylltu â phlant a theuluoedd a threulio amser gyda nhw, a'r gwaith o gofnodi gwybodaeth hanfodol. Dywedodd y rheolwyr wrthym eu bod yn glir na ddylai'r arfer hwn barhau yn y tymor hir ond gwnaeth bwysleisio'r angen i gydbwyso'n ofalus wrth gefnogi staff a pheidio â rhoi pwysau pellach ar weithlu sydd eisoes yn fregus. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gynyddu'r gweithlu mewn swyddi allweddol i fodloni ei gyfrifoldebau statudol. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol adolygu sut mae'n monitro ac yn mynd i'r afael â meysydd ymarfer diogelu allweddol.

Dull:

- gwnaethom adolygu dogfennau a roddwyd ymlaen llaw cyn ein hymweliad
- gwnaethom siarad â phedwar rhiant/gofalwr ac un unigolyn ifanc
- gwnaethom adolygu 37 o ffeiliau achos
- gwnaethom siarad â phum cynrychiolydd o asiantaethau partner, gan gynnwys addysg, yr heddlu a gwasanaethau iechyd
- gwnaethom arsylwi ar gyfarfod rheolwyr derbyn, cyfarfod gwella perfformiad, a chyfarfod strategol
- gwnaethom siarad ag ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-reolwyr

Y camau nesaf

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd â blaenoriaeth i'w gwella a byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn trwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthusiad perfformiad gyda'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr.

Yn ystod ein cyfnod adolygu perfformiad nesaf (2022-2023), bydd AGC yn parhau i fonitro cynnydd ynghyd â'r awdurdod lleol drwy weithgareddau adolygu perfformiad arferol. Bydd cynnydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn fewnol drwy ddull sydd yn ystyried lefelau risg. Cymerir hyn i ystyriaeth wrth gynllunio arolygiadau o awdurdodau lleol.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi helpu gyda'r trefniadau ar gyfer yr arolygiad dilynol hwn ac i'r bobl a'r staff a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol?

Yn gywir,

Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru